



## Chwarae yn y dŵr - Cregyn

Mae'r rhan fwyaf o blant wrth eu bodd yn chwarae mewn/gyda dŵr felly os oes gennych unrhyw gregyn gartref beth am eu rhoi mewn twb o ddŵr?

### Byddwch angen:

- Bowlen/Cynhwysydd mawr
- Dŵr
- Cregyn o wahanol liw a maint

### Dull:

- Llenwch y bowlen/cynhwysydd at hanner ffordd gyda dŵr
- Gollyngwch y cregyn i mewn
- Gadewch i'ch plentyn chwarae gyda'r

# DYSGU DRWY CHWARAE - Chwarae yn y dŵr - Cregyn

cregyn i mewn ac allan o'r dŵr i deimlo'r gwahanol weadau

## Pam ddim?

- Os ydych yn ddigon ffodus i fyw ger y traeth beth am fynd i edrych am gregyn a gweld beth arall gallwch ddod o hyd iddo ar y traeth?

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn annog eich plentyn i archwilio gwrthrychau natur
- Bydd estyn i mewn i'r dŵr i nôl cregyn yn datblygu sgiliau echddygol eich plentyn
- Bydd eich plentyn yn dysgu geiriau newydd wrth i chi siarad am y lliwiau, siapiau a gwead



### RHYBUDD:

Mae angen goruchwyliaeth fanwl gyda darnau bach ac unrhyw weithgareddau dŵr!

